Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad Asedau Cymunedol gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

---

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid cymunedau yn rheoli asedau pan fydd yn briodol iddynt wneud hynny ac mae digon o gefnogaeth yn lleol. Gwnaethom weld pwysigrwydd penodol yr asedau hyn yn ein cymunedau yn ystod y pandemig. Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng costau byw rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd yn her arall i gymunedau a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n dda gennym weld bod yr adroddiad yn cydnabod bod asedau sy'n cael eu rheoli gan gymunedau'n gallu arwain at fanteision sylweddol.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn arwain ein hymrwymiad i atgyfnerthu ein gwaith ymgysylltu â chymunedau a dysgu o'r arferion gorau. Ym mis Gorffennaf eleni gwnaethom gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu eu bwriadau yn y maes hwn. Rydym eisoes wedi sefydlu Bwrdd Trawslywodraethol ar Bolisi Cymunedau, ac wedi dechrau gweithio ar sut rydym yn gallu atgyfnerthu'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau. Mae cwmpas y gwaith hwn yn ehangach o lawer na'r gwaith o gefnogi'r asedau eu hunain – mae hefyd yn cydnabod arwyddocâd yr asedau hynny wrth rymuso ein cymunedau.

Mae adeiladau cymunedol a mannau gwyrdd yn darparu ffocws pwysig ar gyfer cynnal cymunedau a'u llesiant. Mae'r Pwyllgor wedi herio pa mor effeithiol yw'r trefniadau presennol wrth rymuso cymunedau Cymru i gaffael neu reoli asedau a gwasanaethau cyhoeddus o fewn y cymunedau hynny.

Rydym wedi cyhoeddi polisi a chanllawiau ar gyfer trosglwyddo asedau cyhoeddus i grwpiau cymunedol. Mae gan rai awdurdodau lleol eu polisïau eu hunain – ond nid pob un; a chydnabyddir bod rhai yn dangos arferion da – ond nid pob un. At ei gilydd ystyrir bod y dull hwn yn cael ei reoli o'r brig i lawr, a honnir ei fod yn aneffeithiol wrth rymuso cymunedau ar lawr gwlad. Nid ydym yn cytuno â'r asesiad hwn yn llwyr, ond rydym yn cydnabod bod anghysondebau yn y ffordd mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu, a bod gennym rywfaint o ddylanwad yn y maes hwn.

Mae llawer o'r canllawiau a'r cyllid sydd ar gael yn cymryd yn ganiataol y bydd yr ased ei hun yn cael ei drosglwyddo, ac mae hyn yn creu atebolrwydd nad oes modd i bob grŵp cymunedol ei gynnal – yn enwedig yn y tymor hir. Mae opsiynau eraill yn lle perchnogaeth, fel stiwardiaeth, eisoes yn dod i'r amlwg, a gall y rhain gefnogi a grymuso cymunedau pan nad perchnogaeth yw'r opsiwn gorau.

Mae swyddogion wedi dechrau gwaith i ddangos eu hymrwymiad i rymuso cymunedau. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Bwrdd Trawsadrannol ar Bolisi Cymunedau sydd â'r nod o atgyfnerthu llais cymunedau yn y gwaith o lunio polisïau a gwella effeithiau ar draws feysydd polisi allweddol.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Lleol a Thai am eu hadroddiad ar Asedau Cymunedol yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cymryd camau i wella rhai o'r meysydd mae argymhellion wedi cael eu gwneud yn eu cylch. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd eisoes wedi dweud ei bod hi o blaid cytuno i sefydlu comisiwn, a chydnabu Richard Baker yn ei dystiolaeth i'r ymchwiliad fod angen adolygiad o'r canllawiau ar drosglwyddo asedau, yn benodol i gynnwys ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid.

Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sefydlu comisiwn i sbarduno ffordd newydd o feddwl am berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru. Dylid sefydlu'r comisiwn o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn a dylai weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gwaith. Dylai'r comisiwn wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd eisoes wedi dweud ei bod hi o blaid cytuno i sefydlu comisiwn. Bydd angen ystyried natur a chwmpas comisiwn yn ofalus cyn cymryd camau i weithredu'r argymhelliad hwn. Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith hwn. Wrth sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir rhaid ystyried yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu bresennol – bydd yr ymrwymiadau hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni.

Goblygiadau ariannol: Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu'r gwaith hwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

Argymhelliad 2.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ac Ystadau Cymru adolygu a diweddaru eu canllawiau presennol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Dylai'r adolygiad ddechrau o fewn deuddeg mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Wrth gynnal ei hadolygiad, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys grwpiau cymunedol sydd â phrofiad uniongyrchol o'r broses ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, i sicrhau y gellir defnyddio eu hadborth i lywio'r gwaith o ddiweddaru canllawiau.

Ymateb: Derbyn

Roedd ein tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cydnabod y byddai adolygiad pellach o'r canllawiau presennol yn cael ei gynnal ac y dylai hyn gynnwys ymgysylltu ehangach. Mae'n bwysig hefyd bod unrhyw ganllawiau diwygiedig yn cyd-fynd â pholisi cymunedol ehangach.
Goblygiadau ariannol: Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu'r gwaith hwn o fewn yr amserlen a argymhellir. Gellid caffael adnoddau allanol, yn amodol ar gadarnhau cyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24.

Argymhelliad 3.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau ar gyfer rhoi ystyriaeth i p'un a ddylai grwpiau cymunedol sy'n bodloni meini prawf y cytunwyd arnynt allu cychwyn y broses o drosglwyddo asedau eu hunain. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymell.

Ymateb: Derbyn

Mae Grwpiau Cymunedol eisoes yn gallu cychwyn y broses o drosglwyddo asedau.

Mae sylwadau'r Pwyllgor yn cydnabod bod anghysondeb rhwng awdurdodau lleol, ac nad oes gan bob awdurdod lleol bolisi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol. Rydym hefyd yn cydnabod bod tystiolaeth bod cyrff cyhoeddus eraill yn llai gweithgar wrth drosglwyddo asedau i gymunedau, ond eu bod yn chwarae rôl yr un mor bwysig wrth drosglwyddo asedau.

Mae swyddogion o'r farn y gellid sicrhau effeithiau tebyg drwy wella'r canllawiau a sicrhau cysondeb heb osod neu greu disgwyliadau rhy uchelgeisiol ar gyfer cymunedau. Gallai'r canllawiau gynnwys polisïau sampl sydd wedi cael eu profi'n effeithiol.

Bydd adolygiad o'r canllawiau'n cynnwys hyrwyddo manteision trosglwyddo asedau drwy ddefnyddio astudiaethau achos.

Goblygiadau ariannol: Dim. Gellir gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

Argymhelliad 4.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddaru ei chanllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ei gwneud yn gliriach bod y broses drosglwyddo yn berthnasol i bob corff cyhoeddus, nid llywodraeth leol yn unig.

Ymateb: Derbyn

Gellid ymgorffori'r argymhelliad hwn mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2.

Goblygiadau ariannol: Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

Argymhelliad 5.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, ystyried sut y gellir eu cryfhau i roi eglurder a sicrwydd i awdurdodau lleol ar asesu buddion gwerth cymdeithasol trosglwyddo ased, gan gynnwys mewn amgylchiadau sy'n arwain at ei drosglwyddo am lai na gwerth y farchnad.

Ymateb: Derbyn

Gellid ymgorffori'r argymhelliad mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helpu i ddatblygu fframwaith i gynorthwyo cyrff cyhoeddus sy'n trosglwyddo asedau i nodi'r gwerth cymdeithasol sy'n deillio o wneud hyn.

Goblygiadau Ariannol: Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

Argymhelliad 6.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol, gryfhau'r cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu hategu'n glir gan y Ddeddf.

Ymateb: Derbyn

Gellid ymgorffori'r argymhelliad mewn unrhyw ganllawiau diwygiedig, felly rydym yn cytuno mewn egwyddor fel ymateb i Argymhelliad 2.

Goblygiadau ariannol: Oes. Rydym yn derbyn y dylid adolygu a diweddaru'r canllawiau presennol, yn amodol ar dderbyn cadarnhad o gyllideb Ystadau Cymru ar gyfer 2023–24

Argymhelliad 7.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru, wrth adolygu'r canllawiau ar asedau cymunedol, wella argaeledd astudiaethau achos sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau'n llwyddiannus, a dylai hefyd gynnwys prosiectau mwy diweddar ymhlith yr astudiaethau. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r astudiaethau achos o bryd i'w gilydd i sicrhau bod yr enghreifftiau mwyaf diweddar ar gael i eraill ddysgu oddi wrthynt. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r astudiaethau achos o bryd i'w gilydd i sicrhau bod yr enghreifftiau mwyaf diweddar ar gael i eraill ddysgu oddi wrthynt.

Ymateb: Derbyn

Mae Ystadau Cymru yn parhau i ddatblygu astudiaethau achos a hyrwyddo'r arferion gorau fel rhan o'u gwaith craidd. Mae astudiaethau achos yn cael eu cynnwys yn eu newyddlenni ac mae ganddynt rôl bwysig yn y gynhadledd flynyddol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gynllun busnes presennol Ystadau Cymru, sy'n cynnwys adolygiad o'r ffordd orau o rannu astudiaethau achos ar arferion da.

Goblygiadau ariannol: Dim. Gellid gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

Argymhelliad 8.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i sefydlu rhwydwaith cymheiriaid trosglwyddo asedau i alluogi grwpiau cymunedol i hwyluso rhannu profiadau ac arfer gorau â'i gilydd

Ymateb: Derbyn

Mae Ystadau Cymru eisoes wedi dechrau ystyried y ffordd orau o rannu arferion da. Bydd hyn yn rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn ymateb i Argymhelliad 7.

Goblygiadau ariannol: Dim. Gellid gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol.

Argymhelliad 9.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu pecyn cymorth wedi'i gydgysylltu i gefnogi cymunedau sy'n ceisio prynu neu brydlesu tir neu asedau. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymell archwilio gyda rhanddeiliaid y pecyn cymorth a ddylai fod ar gael.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i grwpiau cymunedol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, a'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, sy'n cael ei rheoli gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae cymorth arall hefyd ar gael o ffynonellau eraill.

Gall cylch gorchwyl y comisiwn gynnwys adolygu'r pecyn cymorth sydd ar gael.**Goblygiadau ariannol:** Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

Argymhelliad 10.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i ystyried opsiynau, gan gynnwys dulliau deddfwriaethol, i ddod o hyd i atebion a all rymuso cymunedau a rhoi cyfle cyfartal iddynt wrth gystadlu yn erbyn buddsoddwyr preifat i brynu asedau o ddiddordeb. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymell.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gall archwilio datrysiadau cyfreithiol a fabwysiadwyd mewn mannau eraill a sut y gallent rymuso cymunedau yng Nghymru gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

Bydd angen i waith y comisiwn mewn ymateb i'r argymhelliad hwn adlewyrchu canfyddiadau gwerthusiadau annibynnol o ddeddfwriaeth a basiwyd mewn mannau eraill i sicrhau y byddai unrhyw argymhelliad deddfwriaethol yn cyflawni ei nodau arfaethedig ac yn sicrhau gwerth am arian.

Bydd gwaith ein Bwrdd Polisi Cymunedau yn gallu cyfrannu at yr argymhelliad hwn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth drawslywodraethol ac mae'n cynllunio datblygu prosiectau peilot drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn nifer fach o ardaloedd awdurdod lleol. Bydd rôl a photensial asedau cymunedol wrth rymuso cymunedau yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Bydd adborth o'r prosiectau peilot yn cael ei rannu â'r comisiwn pan fydd wedi cael ei sefydlu.

Goblygiadau Ariannol: Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

Argymhelliad 11.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i adolygu ffrydiau ariannu sy'n cefnogi asedau cymunedol, gan gynnwys cyllid Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ac ystyried opsiynau i gynyddu argaeledd cyllid benthyciad fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol. Gallai hyn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymell. Gallai hyn gael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymell.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi mewn Asedau Cymunedol drwy'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol, a ddarperir i ni gan WCVA, ac yn uniongyrchol drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

Gellir cynnwys adolygiad o'r ffrydiau ariannu presennol yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

Goblygiadau ariannol: Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen ar argymhellir.

Byddai benthyciadau ychwanegol yn cynyddu rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod pan fyddwn yn ceisio cyfyngu ar wariant nad yw'n rhan o'r Rhaglen Lywodraethu.

Argymhelliad 12.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu Cronfa Asedau Cymunedol. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymell roi ystyriaeth bellach i sefydlu cronfa o'r fath.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni bwriad yr argymhelliad hwn. Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn darparu grantiau o hyd at £300k i helpu cymunedau i brynu, datblygu a gwella asedau cymunedol – adeiladau a mannau gwyrdd. Mae'r rhaglen hon wedi darparu grantiau cyfalaf gwerth dros £41 miliwn ar gyfer prosiectau ledled Cymru ers 2017. Mae'r Gronfa hon yn gweithio ochr yn ochr â'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol sy'n cael ei rheoli ar ein rhan gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n darparu hyd at £300k (100%) i alluogi cymunedau i brynu asedau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Gellir gwneud y gwaith hwn gan ddefnyddio adnoddau presennol

---

Argymhelliad 13.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gwneud y broses o ganfod perchnogaeth asedau a thir yn haws i gymunedau a sut y gall y broses helpu i rymuso grwpiau i ymgymryd ag asedau yr hoffent iddynt barhau. Dylai hyn gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer ystyried a fyddai cofrestr o asedau o fudd a chael ei wneud gan y comisiwn yr ydym wedi'i argymell.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gellid cynnwys adolygiad i nodi a fyddai cofrestr o asedau yn fuddiol, neu'n effeithiol o ran cost, yng nghylch gorchwyl y comisiwn.

Mae swyddogion wedi dechrau adolygiad o'r data sydd ar gael. Mae DataMap Cymru eisoes yn cyhoeddi data ar dir dan berchnogaeth gyhoeddus yng Nghymru sydd ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim. Mae Cofrestrfa Tir y DU yn cadw data ar berchnogaeth tir o dir cofrestredig sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys tua 85% o'r holl berchnogaeth. Rydym yn gwneud ymholiadau i'r potensial i ehangu'r data cyfredol sydd ar gael drwy DataMap Cymru i gynnwys tir cofrestredig a oedd dan berchnogaeth breifat. Bydd

creu data newydd, fel cofrestrau asedau, yn gofyn am adnoddau sylweddol gan lywodraeth ganolog a lleol a gall ddyblygu ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ar berchnogaeth. Nid yw creu cofrestrau neu gronfeydd data ar dir sydd heb ei gofrestru yn gost effeithiol nac yn ymarferol.

Bydd adborth o'r gwaith hwn yn cael ei rannu gyda'r comisiwn.

Goblygiadau Ariannol: Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen ar argymhellir.

Er mwyn datblygu a chynnal setiau data ychwanegol ar MapDataCymru, os ydynt ar gael, bydd angen adnoddau ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar gael.

Bydd angen adnodd ychwanegol ar ddatblygu a chynnal setiau data ychwanegol ar DataMapCymru, os yw ar gael. **-**

Argymhelliad 14.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa benodol i Gymru ar gyfer prosiectau tai cymunedol sy'n debyg i'r cronfeydd sydd ar gael yn Lloegr a'r Alban.

Ymateb: Gwrthod

Derbyniodd y Gweinidog Newid Hinsawdd argymhelliad o'r Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy (Mai 2019) i symleiddio rhaglenni ariannu ar gyfer tai fforddiadwy.

Gall grwpiau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned gael mynediad at gyllid Grant Tai Cymdeithasol pan fyddant yn partneru â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ac mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi bod yn awyddus i archwilio mynediad i ffrydiau ariannu eraill sy'n bodoli eisoes ar gyfer grwpiau tai sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae swyddogion yn gweithio gyda Cwmpas mewn cysylltiad â datblygu cynnig tai penodol a arweinir gan y gymuned gan ddefnyddio'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau.

Argymhelliad 15.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu deddfwriaeth benodol i Gymru, wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion Cymru. Dylai'r comisiwn yr ydym wedi'i argymell ystyried yr angen am ddeddfwriaeth i gefnogi perchnogaeth gymunedol a grymuso cymunedau yng Nghymru erbyn diwedd tymor presennol y Senedd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Gall cylch gorchwyl y comisiwn gynnwys adolygiad o opsiynau deddfwriaethol ar gyfer Cymru. . Bydd angen i hyn ystyried gwerthusiadau annibynnol o effaith darpariaethau

cyfreithiol sy'n cael eu gweithredu mewn mannau eraill, i sicrhau y byddai argymhelliad deddfwriaethol yn cyflawni ei fwriadau ac yn sicrhau gwerth am arian.

Goblygiadau ariannol:

Oes. Ni fyddai'r adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi datblygu a sefydlu comisiwn o fewn yr amserlen a argymhellir.

Argymhelliad 16.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud trefniadau i adolygu canllawiau cynllunio Cymru i sicrhau eu bod yn grymuso cymunedau ac yn cefnogi prosesau trosglwyddo asedau.

Ymateb:

Derbyn mewn egwyddor

Mae Polisi Cynllunio Cymru o blaid egwyddorion creu lleoedd, sy'n cynnwys darparu seilwaith cymunedol. Bydd asedau cymunedol yn rhan amlwg o seilwaith cymunedol mewn rhai mannau, ac mae'n briodol y dylai Polisi Cynllunio Cymru gydnabod y gall trosglwyddo asedau fod yn fuddiol i gynaliadwyedd rhai cymunedau.

Byddwn yn ceisio gwella'r canllawiau ar bolisi mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol; fodd bynnag, dylid cydnabod bod y system gynllunio yn rheoleiddio'r ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu, ac ni ddylid gwahaniaethu rhwng ceisiadau cynllunio ar sail pwy yw'r ymgeisydd. O ganlyniad, efallai bydd enghreifftiau pan allai trosglwyddo ased i'r gymuned, at ddiben penodol, fynd yn groes i bolisïau sefydledig, ac ni fyddai unrhyw newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ystyried cynigion o'r fath mewn modd ffafriol, pe bai'n amlwg eu bod yn groes i bolisi.

Goblygiadau ariannol: Dim